# Specialist Estates Services

GIG CYMRU NHS WALES
Partneriaeth Cydwasanaethau
Gwasanaethau Ystadau Arbenigol
Shared Services Partnership
Specialist Estates Services

May 2019
eNewsletter 6



**Introduction from Neil Davies, Director of Specialist Estates Services**

Welcome to May's Newsletter. As usual it contains a snapshot of the events and activities across SES which I hope you find of interest. As an All Wales organisation providing professional services to the Welsh Government and NHS Wales, we are always mindful of the need to ensure our advice is based on analysis and underpinned by evidence, but also respects the context in which we operate.

Fundamental to achieving this are our staff, the majority of which are experienced chartered estates professionals in their respective disciplines. Having a critical mass of estates professionals allows issues to be debated and discussed across the team; so that even if the job manager has not dealt with a specific circumstance before, chances are, someone else in the team has.

In support of our staff we have always embraced quality initiatives which provide a clear framework in which to operate. Currently we have ISO 9001:2015 Quality Management and Customer Service Excellence accreditation as well as participating in the Wales Quality Centre. At an organisational level NWSSP is also accredited to ISO 14001, the internationally recognised Environment Management Standard.

The article on page one highlights the Wales Quality Centre's 30th Anniversary Wales Quality Awards, held on the 23 January 2019 at Hensol Castle, at which we were fortunate to be one of the finalists shortlisted for an award in the 'Most Improved Organisation Ever' category (a bit of hyperbole never hurt anyone!). We didn't take the first prize but had an honourable commendation as an organisation recognised for excellence. So there is more work to be done, as it should be!

**Regards, Neil**

neil.davies4@wales.nhs.uk | 02920 905382




***Inside this issue...***

***Wales Quality Awards*** Page 1

***Maggie's Centre Cardiff*** Page 2

***IHEEM Seminar*** Page 3

***SES at Ysbyty Glan Clwyd*** Page 4

***Staff Changes*** Page 5

***Customer Service Excellence*** Page 6

***Latest Technical Publications*** Page 7

***History Corner: Whitchurch Hospital*** Page 8

# Wales Quality Awards



*Pictured at the awards:* Neil Davies, Martin Cooper and Suzanne Pullen representing SES, a representative of event sponsor Calsonic Kansei (centre), along with Emma Assender (left) representing the winning organisation - Monmouthshire Housing Association.

**Specialist Estates Services nominated for 'Most Improved Organisation Ever' at the Wales Quality Awards 2018!**

Suzanne Pullen, Senior Administration Officer, Martin Cooper, Business Manager and Neil Davies, Director, attended the Wales Quality Centre 30th Anniversary Wales Quality Awards on the 23rd January 2019 at Hensol Castle.

The 'Most Improved Organisation Ever' category was announced along with the names of the finalists and it included none other than SES!

Neil, Suzanne and Martin nervously sat through promotional videos each extolling the virtues of the three finalists. The gold envelope containing the names of the winner was duly opened by none other than veteran broadcaster Vincent Kane to reveal the winner...sadly it was not SES!

The deserved winners were Monmouthshire Housing Association and although we didn't win we walked away with a fetching finalist trophy that highlighting that we had been 'Recognised for Excellence'.

Neil proudly commented: "I am delighted that SES has been recognised as one of the most improved organisations since the inception of the Wales Quality Centre at its recent event to celebrate 30th anniversary."

"SES has been in the vanguard of quality assurance for many years and it is a testament to the professionalism and dedication of our staff that quality continues to maintain such a high profile across the division."

If you want to find out more about our quality activities then please contact our quality manager:



**Suzanne Pullen** | Senior Administrator
Suzanne.Pullen@wales.nhs.uk | 02920 905382

# Maggie’s Centre Cardiff






A development that the SES property team has been working on over the past few years has now opened at the Velindre Cancer Centre site in Cardiff.

‘Maggie’s Centre’, an interim cancer hub providing emotional and practical support to patients and their familes, opened its doors on April 23rd before welcoming its first visitors on May 7th.

The centre will support people in south east Wales temporarily, with a permanent solution due as part of the new Velindre Cancer Centre development, which is expected to open in 2024.

Maggie’s Centres are independent but work with the NHS across the UK; they follow the ideas laid out by cancer sufferer and activist Maggie Keswick Jencks.

Designed by architects Dow Jones this is the second Maggie’s Centre in Wales, building upon the success of Maggie’s south west Wales centre at Singleton Hospital in Swansea.

The new Maggie’s Centre and Velindre Cancer Centre are working in partnership to create cancer support of the highest quality for people in south east Wales thanks to funding of £850,000 from Welsh Government for the temporary facility.

It will work in partnership with Velindre Cancer Centre to enhance the cancer care and support already on offer and is expected to receive up to 20,000 visits a year.

Velindre sees around 5,000 new diagnoses a year, with a further 50,000 new outpatient appointments from people living with or after cancer in south Wales.

The Maggie’s Centre in Cardiff will give visitors access to a range of services, including psychological support, benefits advice, nutrition workshops, relaxation and stress management, art therapy, tai chi and yoga.

Both the roof and walls are clad in corrugated weathering steel. Inside the pitches of the roof are exposed and give character to the different spaces. At the heart of the building is the cwtch, a tall and intimate roof-lit space, inspired by the simnau fawr (big chimneys) of vernacular Welsh architecture. The Welsh word cwtch has two meanings; it means both a small, comforting space, and also a cuddle.

SES’s role involved working with both representatives of Maggie’s and Velindre University NHS Trust in order to discuss and agree the terms under which the development would be constructed and subsequently occupied. This enabled SES to produce detailed Heads of Terms for the lease and agreement for lease of the site between the two parties.

Subsequently, SES worked with Cardiff & Vale University Health Board to enable adjoining health board land at Whitchurch Hospital to be made available for a contractor’s compound during the construction works and for car parking associated with the new centre.

**Click here** to visit the Maggie’s Cardiff website.

For further information please contact:



**Clive Ball** | Head of Property
Clive.Ball@wales.nhs.uk | 0292090 4106

# IHEEM Seminar

**The Institute of Healthcare Engineering and Estate Management (IHEEM) Regional Decontamination and Endoscopy Seminar took place in Cardiff, featuring a variety of knowledgeable speakers.**

It was a day of interesting discussions, sharing of good practice and an excellent learning opportunity for those working within the area of decontamination of medical devices, whether that be sterile services departments or endoscopy.

Expert speakers with vast amounts of experience, research and knowledge in this field shared their thoughts, research findings and expectations as well as looking at the past, present and future of decontamination.

Dr Mike Simmons, consultant microbiologist at Public Health Wales, chaired the morning session which started with former SES Senior Decontamination Engineer, Graham Stanton, now the current chair of IHEEM's Decontamination Registration Board.

The talk gave an insight into the design and installation of a Sterile Services Department (SSD), 'one of the most important departments in the hospital'.

Graham's discussion also looked at the NHS guidance changes since Health Building Note (HBN) 13 and the implications that this has had for the healthcare estate today.

Being one-step ahead and keeping in control was the topic of conversation for Gail Lusardi, from Public Health Wales. Gail, once an infectious diseases nurse with an enormous amount of professional experience in this area, looked at the journey of decontamination improvement throughout her career and outlined the current issues of infection prevention and control in the NHS Wales estate.

The morning session ended with a focus on Antimicrobial biocides by Professor Jean-Yves Maillard, professor of Pharmaceutical Microbiology at Cardiff University School of Pharmacy and Pharmaceutical Sciences.



Professor Maillard

This interesting presentation offered an insight into the of the rise in hospital acquired infections (HAIs) on a global scale and the emerging microbial resistance along with a predication of what the future holds with regards the fight to halt and reverse the rise of HAIs.

Lunch gave attendees the opportunity to network with others from health boards around Wales as well as the sponsors including Serchem, Manosonics and Diversey, to learn about the products and research available.

Opening and chairing the afternoon's session was Tracey Gauci, Deputy Clinical Director of GAMA Healthcare who introduced the speakers and facilitated any questions and answers.

First to speak was Professor Steven L. Percival from 5D Health Protection Group, who provided an very interesting overview of the research and development in microbiology, biofilms, antimicrobials, biomaterials, tissue regeneration and infection control.




Professor Percival

SES's current Senior Decontamination Engineer, John Prendergast, took the stage to highlight the latest guidance for Decontamination of Endoscopy instruments and policy to ensure patients safety.

The final speaker of the day was Melanie Marchetti, lead nurse Radiology and Endoscopy for Abertawe Bro Morgannwg University Health Board, who, with a thought provoking presentation, outlined the issues affecting decontamination on the front line in acute wards, theatres, X Ray units of Endoscopy instruments.


Melanie Marchetti

Throughout the event exhibitors and sponsors gave presentations on the technical advantages of their products, these included talks by Ben Carter from Cantel, Andrew Kimber from Wassenburg Medical Ltd, Steve Fletcher from Getinge and Paul Rees from Gama Healthcare.

What next? IHEEM's Regional Conferences and Exhibitions will take place in Cardiff on 5th September 2019. For more information on this or any of IHEEM's training events click here.

# SES Engineering Team: Ysbyty Glan Clwyd redevelopment project







Our mechanical and electrical engineers provide essential services across NHS Wales, working in partnership with Health Boards and Trusts.

Here are two fantastic examples of our staff engaging and working collaboratively with colleagues in areas including electrical engineering and medical gases.

The photographs show SES's Simon Russell, Stephen Rees and Nigel Baker working with staff at Betsi Cadwaladr University Hospital Board (BCUHB) to deliver the redevelopment project at Ysbyty Glan Clwyd in Rhyl.

Arwel Hughes, Estates Operational Manager for BCUHB, thanked our engineers for their support throughout the last five years.

Also pictured is our Medical Gases Authorising Engineer, Chris East (second right) who assessed the Approved Persons (APs) of the Estates and Facilities staff at Ysbyty Glan Clwyd.

Pictured from BCUHB's Operation Estates Department (Central) is Iwan Roberts, Derek Thomas and Simon Williams who all successfully completed a Medical Gas Pipeline System – Authorised Person Assessment.

If you want to find you more about the work of our engineers then please contact:



**Kevin Ridge** | Head of Engineering
Kevin.Ridge@wales.nhs.uk | 0292090 4099

# Staff changes

There has been a fair amount of activity on this front since the last Newsletter. To use Brexit terms, one 'leaver' has now become a 'remainer', with Paul Cottrell, Property Surveyor, recently withdrawing his notice to leave at the end of March 2019.

Since the last Newsletter Gareth Lloyd and Stephen Lloyd have both left SES, the former to take up a senior fire safety role at the Hywel Dda University Health Board and the latter an Assistant Director of Estates position at Velindre University NHS Trust.

Leaving at the end of March were Andrew Eustace, Senior Property Advisor (Primary Care) and Iain Worby, Head of Building for Wales. Already retired Andrew has indicated that he is leaving to enjoy "doing nothing" for a while – well deserved. Iain is moving to Cwm Taf University Health Board to complete an initial 18 month secondment managing from a client perspective the continued re-development of Prince Charles Hospital.

David Meatyard, Principal Estates Advisor (Business Cases), has recently outlined his intention to retire at the end of May. David will be a very hard act to follow in his role as a business case scrutineer.

For every leaver there is usually a new starter, we are delighted to welcome the following into the SES family:

- On the 1st April Jonathan Simcock from Cardiff University, took up the Framework Manager role vacated by David Taylor.
- Dylan Evans has been successful in his application for the Authorising Engineer (Ventilation) role.
- Steve Roberts has been offered the Senior Estates Advisor role within our Property related Primary Care team.

One of our existing Property Surveyors, Caroline Lewis, has also been offered a Primary Care related Senior Estates Advisor role after interview.

On a temporary basis Iain Worby's role will be undertaken by Framework Manager Andrew Waddington.

Nigel Davies is also making a welcome return to SES following the completion of a two-year secondment with the Welsh Government.



David Meatyard



Steven Roberts



Iain Worby



Andrew Eustace



Jonathan Simcock



Dylan Evans



Caroline Lewis



Andrew Waddington

If you would like to join SES then our current vacancies are at the link below:

http://www.nwssp.wales.nhs.uk/jobs/

# Customer Service Excellence update

A very successful Customer Service Excellence (CSE) annual review day was held on the 7th February with the SGS assessor, Leon Winston, indicating at the closing meeting that, '…on a personal note, I have very much enjoyed my visits to SES, since 2014, and been pleased to see the very significant strides forward in customer service'.

The review this year focused on the culture of the organisation, information systems and approaches and access to services. In the morning session Leon met with Dylan Evans, SES Senior Performance Standards Engineer, at the partly constructed £350m Grange Hospital in Cwmbran to better understand our engineering customer facing role. Representatives from our customer, Aneurin Bevan University Health Board (ABUHB), were very keen to promote the working in partnership approach taken by SES throughout the development of the project to date.

The following quotes offered from the ABUHB site staff regarding SES and our services were captured on the day:

"They (SES) are an invaluable, fantastic asset and can be seen as an extension of our team"

"They (SES) are always there to supply you with an answer to any problem you come across. I can't build them up enough"

The assessor returned to Companies House late morning and met with Anthony Pitcher, Senior Fire Safety Advisor, Jessica Morgan, Information Officer, Paul Cottrell and Nicole Kruger, Property Surveyors, to discuss customer journeys and our organisational culture. Leon was very impressed with the professionalism of all the staff he met over the course of the day.

The review report was subsequently received and **no non-compliances were recorded**. We were very pleased to note that three areas of Compliance Plus had been identified:

**1)** The excellent SES Newsletters demonstrate how you are making information about the full range of services highly accessible to customers. You also provide information in ways which set out to meet the wide range of needs and preferences.

**2)** Evidence gathered from a variety of staff and customers during the assessment reinforced the view that customer insight and attention are prioritising the overall service approach.

**3)** It is very encouraging to note how the service encourages and values the contribution of staff to delivering customer focused delivery.

We look forward to the next review in 2020!

For further information on our CSE approach please contact:



**Suzanne Pullen** | Senior Administrator
Suzanne.Pullen@wales.nhs.uk | 02920 905382

# Latest technical publications

**Welsh Health Building Notes (WHBNs)**
These are a range of guidance documents for the planning and design of a range of healthcare buildings that provide specialist services in Wales.

***WHBN 15-01 Accident and Emergency Departments*** (Published 03/08/18)

This guidance is aimed at the multi-disciplinary team including clinicians, design teams, estates planners and managers involved in the strategic and operational planning of an accident & emergency (A&E) service built space.

***WHBN 00-08 Estatecode Wales Edition 2018*** (Published 30/05/18)

Provides detailed advice about the active management of land and property used for healthcare services. By using this information, NHS organisations in Wales should be able to secure efficient and effective solutions through the use of property resources in order to deliver better health and social care in addition to developing opportunities to achieve efficiency savings and reduce costs.

***WHBN 03-02 Facilities for Child & Adolescent Mental Health Services (CAMHS)*** (Published 23/03/18)

This guidance covers the design of child and adolescent mental health services (CAMHS) accommodation for children and young people aged up to 18 years. It provides full descriptions of rooms that are specific to CAMHS and are not contained in other WHBNs and HBNs.

**Welsh Health Technical Memoranda (WHTM)**
These are a range of documents that provide technical guidance on a wide range of specialist systems within the healthcare estate in Wales.

***WHTM 06-01 Electrical Services Supply & Distribution 2018 Edition*** (Published 15/10/18)

Outlines good practice for those responsible for the design, installation, commissioning, operation and maintenance of electrical services in healthcare premises.

***WHTM 01-01 Decontamination of Surgical Instruments (Medical Devices) Used in Acute Wards Part D: Washer-Disinfectors*** (Published 04/10/18)

Covers standards, technical guidance, operational requirements, and testing validation protocols when using washer-disinfectors as part of the decontamination cycle within the acute care setting.

***WHTM 01-01 Decontamination of Surgical Instruments (Medical Devices) Used in Acute Wards Part A: Management and Provision*** (Published 11/07/18)

Provides guidance on the management and decontamination of surgical instruments.

***WHTM 05-01 Firecode Managing Healthcare Fire Safety*** (Published 20/02/2019)

Sets out recommendations and guidance for the management of fire safety in healthcare buildings.

*For further information about our technical publications, please contact:*



**Jessica Morgan** | Information Officer
jessica.morgan2@wales.nhs.uk | 02920 904118

# History Corner: Whitchurch Hospital, Cardiff





Through various guises over the years, SES has had a long association with the health estate in Wales. It's difficult to predict the future for hospital construction in Wales, but the past is more certain. A root around the archives identified the following, which we hope you will find of interest.

Not many hospitals can boast of having a dance hall but Whitchurch Hospital in Cardiff can do just that.

As well as the dance hall the hospital had an 800-seat church, bandstands and summer houses – so self-sufficient the hospital also had a butcher, a bakery, farmland which patients would work as a form of therapy and an eye-catching 150ft water tower which can still be seen on the skyline of north Cardiff today.

Taking ten years to build the construction cost of the hospital was £350,000, which would be around £37.5m today, the main hospital was built on 5 acres of land and has corridors that total two miles combined.

First known as Cardiff mental hospital when it opened in 1908 the hospital cared for around 750 patients over 10 wards – five for male patients and five for female patients – with mental health related illnesses.

During both World Wars the hospital was taken over and used to treat injured soldiers and was one of the first facilities where shellshock or post-traumatic stress disorder was witnessed.

The first medical superintendent at the hospital Dr Edwin Goodall did not want the facility called a lunatic asylum. Known for his pioneering research in mental health Dr Goodall's post-mortem examinations of the brain also helped identify Alzheimer's.

During the 1980s community care became the new direction for treating patients with mental health and the use of Whitchurch Hospital began to decline, with all patients now treated in the new facility at Llandough Hospital.

In 2016 an Arts Council of Wales production, Mementos of Leaving was performed at Whitchurch Hospital as a final farewell to the building, which is now awaiting deconstruction.

We hold an extensive picture library of Welsh hospital estates and we would welcome any photos which could expand our records. To submit photos or if you would like us to feature your hospital in a future edition of this newsletter, please contact:



**Jessica Morgan** | Swyddog Gwybodaeth
Jessica.Morgan2@wales.nhs.uk | 02920 904118

# Contact SES

Those working within NHS Wales can either use our services directory or staff list to find the right person for the job, and those outside NHS Wales can look at the staff list on our website.

Specialist Estates Services
3rd Floor, Companies House
Crown Way
Cardiff
CF14 3UB

02920 904118

GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau Shared Services Partnership

Designed and produced by the NWSSP Communications Team

# Gwasanaethau Ystadau Arbenigol

GIG CYMRU NHS WALES
Partneriaeth Cydwasanaethau
Gwasanaethau Ystadau Arbenigol
Shared Services Partnership
Specialist Estates Services

Mai 2019
e-Daflen Newyddion 7



**Cyflwyniad gan Neil Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ystadau Arbenigol**

Croeso i Gylchlythyr mis Mai. Fel arfer, mae'n cynnwys ciplun o'r digwyddiadau a'r gweithgareddau ar draws Gwasanaethau Ystadau Arbenigol a fydd, gobeithio, o ddiddordeb i chi. Fel sefydliad Cymru gyfan sy'n darparu gwasanaethau proffesiynol i Lywodraeth Cymru a GIG Cymru rydym bob amser yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod ein cyngor yn seiliedig ar ddadansoddiad ac wedi'i ategu gan dystiolaeth ond hefyd yn parchu'r cyd-destun yr ydym yn gweithredu ynddo.

Mae ein staff yn rhan hanfodol o gyflawni hyn ac mae'r mwyafrif ohonynt yn weithwyr proffesiynol ystadau siartredig profiadol yn eu disgyblaethau priodol. Mae cael màs critigol o weithwyr ystadau proffesiynol yn caniatáu i faterion gael eu trafod ar draws y tîm, felly os na fydd y rheolwr swydd wedi delio ag amgylchiadau penodol o'r blaen, mae'n debygol y bydd rhywun arall eisoes wedi gwneud.

Rydym bob amser wedi croesawu mentrau ansawdd sy'n darparu fframwaith clir ar gyfer gweithredu er mwyn cefnogi ein staff, Ar hyn o bryd, rydym wedi ein hachredu i Reoli Ansawdd a Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid ISO 9001: 2015 ac rydym hefyd yn cymryd rhan yng Nghanolfan Ansawdd Cymru. Ar lefel sefydliadol, mae PCGC hefyd wedi'i hachredu i ISO 14001 y Safon Rheolaeth Amgylcheddol a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Mae'r erthygl ar dudalen 1 yn tynnu sylw at Wobrau Ansawdd 30ain Pen-blwydd Canolfan Ansawdd Cymru a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2019 yng Nghastell Hensol, lle'r oeddem yn ffodus i fod yn un o'r rhai a gyrhaeddodd y rhestr fer ar gyfer gwobr yn y categori 'Y Sefydliad sydd wedi Gwella Fwyaf Erioed' (nid yw ychydig o or-ddweud byth yn brifo neb!). Nid oeddem wedi ennill y wobr gyntaf ond derbyniom ganmoliaeth anrhydeddus fel sefydliad Cydnabyddedig am Ragoriaeth. Felly erys mwy i'w wneud, fel y dylai fod!

**Cofion, Neil**

neil.davies4@wales.nhs.uk | 02920 905382

***Yn y rhifyn hwn...***

***Gwobrau Ansawdd Cymru Tudalen 1***

***Canolfan Maggie Caerdydd Tudalen 2***

***Seminar Dadhalogi ac Endosgopi Tudalen 3***

***Prosiect Ailddatblygu Ysbyty Glan Clwyd Tudalen 4***

***Newidiadau Staff Tudalen 5***

***Rhagoriaeth Mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid Tudalen 6***

***Y cyhoeddiadau technegol diweddaraf Tudalen 7***

***Y Gornel Hanes: Ysbyty'r Eglwys Newydd Tudalen 8***



# Gwobrau Ansawdd Cymru



*Yn y llun:* Neil Davies, Martin Cooper a Suzanne Pullen yn cynrychioli Gwasanaethau Ystadau Arbenigol, cynrychiolydd o noddwr y digwyddiad Calsonic Kansei (canol), ac Emma Assender (chwith) yn cynrychioli'r sefydliad a enillodd – Monmouthshire Housing Association.

**Gwasanaethau Ystadau Arbenigol bron yn cipio'r wobr 'Y Sefydliad Sydd Wedi Gwella Fwyaf – Erioed' yng Ngwobrau Ansawdd Cymru 2018!**

Mynychodd Suzanne Pullen, Uwch Swyddog Gweinyddol, Martin Cooper, Rheolwr Busnes a Neil Davies, Cyfarwyddwr, Wobrau Ansawdd Cymru a oedd yn dathlu pen-blwydd Canolfan Ansawdd Cymru yn 30 mlwydd oed ar 23 Ionawr 2019 yng Nghastell Hensol.

Cyhoeddwyd y categori 'Sefydliad Sydd Wedi Gwella Fwyaf – Erioed', ynghyd ag enwau pawb a gyrhaeddodd y rownd derfynol. Roedd y rhestr yn cynnwys neb llai na Gwasanaethau Ystadau Arbenigol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru!

Eisteddodd Neil, Suzanne a Martin yn nerfus drwy'r fideos a oedd yn hyrwyddo ac yn canmol rhinweddau'r tri a gyrhaeddodd y rownd derfynol. Agorwyd yr amlen aur a oedd yn cynnwys enw'r enillydd gan neb llai na'r darlledwr profiadol, Vincent Kane, i ddatgelu'r enillydd. Gwaetha'r modd, nid Gwasanaethau Ystadau Arbenigol oedd yn yr amlen honno.

Yr enillwr teilwng oedd Monmouthshire Housing Association ac, er na enillom, aethom adref gyda thlws yn ein llaw a oedd yn cydnabod ein rhagoriaeth.

Dywedodd Neil yn falch ei fod yn "hapus iawn" bod Gwasanaethau Ystadau Arbenigol y Bartneriaeth wedi cael eu cydnabod yn un o'r sefydliadau sydd wedi gwella fwyaf ers cychwyn Canolfan Ansawdd Cymru yn ei digwyddiad diweddar i ddathlu ei phen-blwydd yn 30 mlwydd oed.

"Mae Gwasanaethau Ystadau Arbenigol y Bartneriaeth wedi bod ar flaen y gad o ran sicrhau ansawdd am sawl blwyddyn, ac mae'r ffaith bod ansawdd yn parhau i gael ei gydnabod yn yr adran yn dyst i broffesiynoldeb ac ymrwymiad ein staff."

Os hoffech wybod rhagor am ein gweithgareddau ansawdd, cysylltwch â:



**Suzanne Pullen** | Uwch-weinyddwr
Suzanne.Pullen@wales.nhs.uk | 02920 905382

# Canolfan Maggie Caerdydd






Mae datblygiad y mae tîm eiddo Gwasanaethau Ystadau Arbenigol wedi bod yn gweithio arno dros y blynyddoedd diwethaf bellach wedi agor ar safle Canolfan Ganser Felindre yng Nghaerdydd.

Agorodd Canolfan Maggie, hwb canser dros dro sy'n darparu cefnogaeth emosiynol ac ymarferol i gleifion a'u teuluoedd, ei ddrysau ar 23 Ebrill cyn croesawu ei hymwelwyr cyntaf ar 7 Mai.

Bydd y ganolfan yn cefnogi pobl yn ne-ddwyrain Cymru dros dro, ac mae datrysiad parhaol ar y gweill fel rhan o ddatblygiad newydd Canolfan Ganser Felindre, y disgwylir iddo agor yn 2024.

Mae Canolfannau Maggie yn annibynnol ond maent yn gweithio gyda'r GIG ledled y DU; maent yn dilyn y syniadau a osodwyd gan y dioddefwr canser a'r gweithredwr Maggie Keswick Jencks.

Dyma'r ail Ganolfan Maggie yng Nghymru ac mae wedi'i dylunio gan y penseiri Dow Jones. Mae'n adeiladu ar lwyddiant canolfan de-orllewin Cymru Maggie yn Ysbyty Singleton yn Abertawe.

Mae Canolfan Maggie newydd a Chanolfan Ganser Felindre yn gweithio mewn partneriaeth i greu cefnogaeth canser o'r ansawdd uchaf i bobl yn ne-ddwyrain Cymru diolch i gyllid o £850,000 gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyfleuster dros dro.

Bydd yn gweithio mewn partneriaeth â Chanolfan Ganser Felindre i wella'r gofal a'r cymorth canser sydd eisoes ar gael a disgwylir iddo dderbyn hyd at 20,000 o ymweliadau bob blwyddyn.

Mae 5,000 diagnosis newydd y flwyddyn yn Felindre, gyda 50,000 o apwyntiadau cleifion allanol pellach gan bobl sy'n byw gyda chanser neu ar ôl canser yn ne Cymru.

Bydd Canolfan Maggie yng Nghaerdydd yn rhoi mynediad i ymwelwyr i ystod o wasanaethau, gan gynnwys cefnogaeth seicolegol, cyngor ar fudd-daliadau, gweithdai maeth, rheoli ymlacio a straen, therapi celf, tai chi a ioga.

Mae'r to a'r waliau wedi'u gorchuddio â dur hindreulio rhychog. Mae tu mewn i leiniau'r to yn agored ac yn rhoi cymeriad i'r gwahanol fannau. Wrth galon yr adeilad mae'r cwtsh, gofod to tal a chlòs, sydd wedi'i ysbrydoli gan simneiau mawr pensaernïaeth frodorol Cymru. Mae gan y gair Cymraeg 'cwtsh' ddau ystyr; mae'n golygu gofod bach, cysurus, yn ogystal â 'cuddle'.

Roedd rôl Gwasanaethau Ystadau Arbenigol yn cynnwys gweithio gyda chynrychiolwyr Maggie ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre er mwyn trafod a chytuno ar y telerau y byddai'r datblygiad yn cael ei adeiladu arnynt a'i feddiannu wedyn. Roedd hyn yn galluogi Gwasanaethau Ystadau Arbenigol i gynhyrchu Penawdau Telerau manwl ar gyfer y brydles a chytundeb ar gyfer prydlesu'r safle rhwng y ddau barti.

Yn dilyn hynny, bu Gwasanaethau Ystadau Arbenigol yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i alluogi bod tir cyfagos y bwrdd iechyd yn Ysbyty'r Eglwys Newydd ar gael ar gyfer caeadle contractwr yn ystod y gwaith adeiladu ac ar gyfer parcio ceir sy'n gysylltiedig â'r ganolfan newydd.

**Cliciwch yma** i ymweld â gwefan Maggie Caerdydd.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:



**Clive Ball** | Pennaeth Eiddo
Clive.Ball@wales.nhs.uk | 0292090 4106

# Seminar Dadhalogi ac Endosgopi

**Cynhaliwyd Seminar Endosgopi a Dadhalogi Rhanbarthol Sefydliad Peirianneg Gofal Iechyd a Rheoli Ystadau yng Nghaerdydd, gyda llu o siaradwyr gwybodus.**

Bu'n ddiwrnod o drafodaethau diddorol, o rannu arferion da ac roedd yn gyfle dysgu gwych i'r rheiny sy'n gweithio ym maes dadhalogi dyfeisiau meddygol, boed hynny yn adrannau gwasanaethau di-haint neu endosgopi.

Rhannodd arbenigwyr a chanddynt brofiad, ymchwil a gwybodaeth helaeth yn y maes hwn eu barn, eu canfyddiadau ymchwil a'u disgwyliadau. Aethant ati hefyd i edrych ar sefyllfa flaenorol, sefyllfa bresennol a dyfodol dadhalogi.

Dr Mike Simmons, Ymgynghorydd Microbioleg Iechyd Cyhoeddus Cymru a gadeiriodd sesiwn y bore, a ddechreuwyd gan Uwch Beiriannydd Dadhalogi Gwasanaethau Ystadau Arbenigol, Graham Stanton, sef cadeirydd presennol Bwrdd Cofrestru Dadhalogi Sefydliad Peirianneg Gofal Iechyd a Rheoli Ystadau.

Roedd yr anerchiad yn rhoi cipolwg ar y gwaith o ddylunio a chyflwyno'r Adran Gwasanaethau Di-haint, sef 'un o'r adrannau pwysicaf yn yr ysbyty'.

Roedd trafodaeth Graham yn edrych hefyd ar y newidiadau yng nghanllawiau'r GIG ers HBN 13 a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar ystadau gofal iechyd heddiw.

Bod un cam ymlaen a bod wrth y llyw oedd pwnc trafod Gail Lusardi o Iechyd Cyhoeddus Cymru. Edrychodd Gail – a oedd, ar un adeg, yn nyrs clefydau heintus ac sydd â phrofiad proffesiynol helaeth yn y maes hwn – ar y daith i wella dadhalogi drwy gydol ei gyrfa. Yn ogystal, amlinellodd y problemau presennol sydd ynghlwm wrth atal a rheoli heintiau yn ystâd GIG Cymru.

Daeth sesiwn y bore i ben gyda ffocws ar fywleiddiaid gwrthficrobaidd gan yr Athro Jean-Yves Maillard, Athro Microbioleg Fferyllol yn Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol Prifysgol Caerdydd.

Roedd y cyflwyniad diddorol hwn yn rhoi cipolwg ar y cynnydd mewn heintiau a godir yn yr ysbyty (HAI) ar raddfa fyd-eang a'r ymwrthedd microbaidd sy'n


Maillard Athro

prysur ddod i'r golwg. At hynny, roedd yn cynnig rhagolygon y dyfodol mewn perthynas â'r frwydr i atal a gwrthdroi cynnydd heintiau a godir yn yr ysbyty.

Roedd amser cinio yn gyfle i fynychwyr ryngweithio â phobl eraill o fyrddau iechyd ledled Cymru yn ogystal â noddwyr, gan gynnwys Serchem, Manosonics a Diversey, i ddysgu am y nwyddau a'r ymchwil sydd ar gael.

Cafodd sesiwn y prynhawn ei agor a'i gadeirio gan Tracey Gauci, sef Dirprwy Gyfarwyddwr Clinigol GAMA, a gyflwynodd y siaradwyr ac a gynorthwyodd ag unrhyw gwestiynau ac atebion.

Y cyntaf i siarad oedd yr Athro Steven L. Percival o 5D Health Protection Group, a roddodd drosolwg diddorol o ymchwil a datblygiad ym maes microbioleg, bioffilmiau, gwrthficrobiaid, deunyddiau bio, adfywiad y feinwe a rheoli heintiau.



Percival Athro

Yna, aeth John Prendergast, Uwch Beiriannydd Dadhalogi presennol Gwasanaethau Ystadau Arbenigol, ati i amlygu'r canllawiau diweddaraf ar gyfer dadhalogi teclynnau Endosgopi a pholisïau er mwyn sicrhau diogelwch cleifion.

Siaradwr olaf y dydd oedd Melanie Marchetti, Nyrs Arweiniol Radioleg ac Endosgopi ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Gyda chyflwyniad

a oedd yn esgor ar feddwl dwys, soniodd am y materion sy'n effeithio ar ddadhalogi teclynnau Endosgopi ar y rheng flaen mewn wardiau aciwt, theatrau ac unedau pelydr-X.


Melanie Marchetti

Drwy gydol y digwyddiad, rhoddodd arddangoswyr a noddwyr y digwyddiad gyflwyniadau ar fanteision technegol eu nwyddau. Roedd y rhain yn cynnwys cyflwyniadau gan Ben Carter o Cantel, Andrew Kimber o Wassenburg Medical Ltd, Steve Fletcher o Getinge a Paul Rees o Gama Healthcare.

Beth nesaf? Cynhelir Cynadleddau ac Arddangosfeydd Rhanbarthol Sefydliad Peirianneg Gofal Iechyd a Rheoli Ystadau yng Nghaerdydd ar 5 Medi 2019. Am ragor o wybodaeth am hyn neu am unrhyw un o ddigwyddiadau hyfforddiant Sefydliad Peirianneg Gofal Iechyd a Rheoli Ystadau, ewch i'r wefan.

Serchem HYGIENE DECONTAMINATION

CANTEL

Diversey™

wassenburg medical

GETINGE

# Y Tîm Peirianneg: Prosiect Ailddatblygu Ysbyty Glan Clwyd





Mae ein peirianwyr trydanol a mecanyddol yn darparu gwasanaethau hanfodol ledled GIG Cymru, a hynny gan weithio mewn partneriaeth â'r Byrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaethau.

Dyma ddwy enghraifft wych o'n staff yn ymgysylltu ac yn gweithio ar y cyd â chydweithwyr mewn meysydd sy'n cynnwys Peirianneg Drydanol a Nwyon Meddygol.

Mae'r ffotograffau isod yn dangos staff Gwasanaethau Ystadau Arbenigol, sef Simon Russell, Stephen Rees a Nigel Baker, yn gweithio gyda staff o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddarparu'r prosiect ailddatblygu yn Ysbyty Glan Clwyd yn y Rhyl, Gogledd Cymru.

Diolchodd Arwel Hughes, Rheolwr Ystadau Gweithredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ein peirianwyr am eu cymorth "drwy gydol y pum mlynedd diwethaf."

Wedi ei gynnwys yn y ffotograff hefyd y mae Chris East, ein Peiriannydd Awdurdodi Nwyon Meddygol (yr ail o'r dde), a asesodd y Personau Awdurdodedig ymhlith staff Cyfleusterau ac Ystadau Ysbyty Glan Clwyd.

Wedi eu cynnwys yn y ffotograff y mae Iwan Roberts, Derek Thomas a Simon Williams o Adran Ystadau Gweithredol (Canolog) Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a lwyddodd i gwblhau'r Asesiad Personau Awdurdodedig – System Piblinellau Nwyon Meddygol.

Os hoffech ragor o wybodaeth am waith ein peirianwyr, cysylltwch â:



**Kevin Ridge** | Pennaeth Peirianneg
Kevin.Ridge@wales.nhs.uk | 0292090 4099

# Newidiadau staff

Mae cryn dipyn o weithgarwch wedi bod yn mynd rhagddo yn hyn o beth ers y cylchlythyr diwethaf. O ran Brexit, mae un a oedd yn bwriadu 'gadael' bellach wedi penderfynu 'aros', oherwydd bu i Paul Cottrell, Syrfëwr Eiddo, dynnu ei rybudd i adael yn ôl ddiwedd mis Mawrth 2019.

Ers y cylchlythyr diwethaf, mae Gareth Lloyd a Stephen Lloyd ill dau wedi gadael Gwasanaethau Ystadau Arbenigol. Mae Gareth wedi mynd ymlaen i fod yn Bennaeth Diogelwch Tân ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ac mae Stephen wedi derbyn swydd yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol Ystadau yn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

Gadawodd Andrew Eustace, Uwch Ymgynghorydd Eiddo (Gofal Sylfaenol) ac Iain Worby, Pennaeth Adeiladu Dros Gymru, ddiwedd mis Mawrth. Dywedodd Andrew, sydd eisoes wedi ymddeol, ei fod yn gadael i fwynhau 'gwneud dim byd' am gyfnod – haeddiannol iawn. Mae Iain yn symud i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i gwblhau secondiad o 18 mis yn gyntaf, yn rheoli'r gwaith parhaus o ailddatblygu Ysbyty'r Tywysog Siarl, o bersbectif cleient.

Yn ddiweddar, mae David Meatyard, Prif Ymgynghorydd Ystadau (Achosion Busnes) wedi crybwyll ei fod yn bwriadu ymddeol ddiwedd mis Mai. Bydd rhaid i'r sawl sy'n camu i esgidiau David fel archwilydd achosion busnes fod yn unigolyn arbennig iawn.

Ond, fel arfer, bydd dechreuwr i bob ymadawr, ac rydym yn falch iawn o groesawu'r canlynol i deulu Gwasanaethau Ystadau Arbenigol:

- Ar 1 Ebrill, dechreuodd Jonathan Simcock o Brifysgol Caerdydd yn ei swydd fel Rheolwr Fframwaith, yn lle David Taylor.
- Bu cais Dylan Evans yn llwyddiannus ar gyfer y swydd Peiriannydd Awdurdodi (Awyru).
- Mae Steve Roberts wedi cael cynnig y swydd Uwch Ymgynghorydd Ystadau yn ein Tîm Gofal Sylfaenol cysylltiedig ag Eiddo.

Mae un o'n Syrfëwyr Eiddo presennol, Caroline Lewis, hefyd wedi cael cynnig y swydd Uwch Ymgynghorydd Eiddo ym maes Gofal Sylfaenol ar ôl y cyfweliad.

Am y tro, Andrew Waddington, ein Rheolwr Fframwaith, fydd yn ymgymryd â rôl Iain Worby.

Yn ogystal, rydym yn croesawu dychweliad Nigel Davies i Wasanaethau Ystadau Arbenigol ar ôl iddo gwblhau dwy flynedd o secondiad gyda Llywodraeth Cymru.


David Meatyard


Steven Roberts


Iain Worby


Andrew Eustace


Jonathan Simcock


Dylan Evans


Caroline Lewis


Andrew Waddington

Os hoffech ymuno â Gwasanaethau Ystadau Arbenigol, gallwch weld ein swyddi gwag presennol drwy ddilyn y ddolen isod:

http://www.nwssp.wales.nhs.uk/jobs/

# Rhagoriaeth Mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid – Adolygiad Blynyddol

Cynhaliwyd adolygiad blynyddol Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid tra llwyddiannus ar 7 Chwefror gyda Leon Winston, yr asesydd SGS, a ddywedodd yn ystod y cyfarfod olaf, '... ar nodyn mwy personol, rydw i wedi mwynhau fy ymweliadau â Gwasanaethau Ystadau Arbenigol yn arw ers 2014, ac rydw i wedi bod yn falch o weld y camau sylweddol ymlaen o ran gwasanaethau cwsmeriaid'.

Roedd yr adolygiad eleni yn canolbwyntio ar ddiwylliant y sefydliad, systemau gwybodaeth a dulliau a mynediad at wasanaethau. Yn ystod sesiwn y bore, cyfarfu Leon â Dylan Evans, Uwch Beiriannydd Safonau Perfformiad Gwasanaethau Ystadau Arbenigol, yn Ysbyty Grange Cwmbrân, sydd wedi ei adeiladu'n rhannol ac sy'n werth £350m, i ddeall yn well ein rôl sydd â ffocws ar gwsmeriaid ym maes peirianneg. Roedd cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn awyddus iawn i hyrwyddo dull Gwasanaethau Ystadau Arbenigol o weithio mewn partneriaeth drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r prosiect.

Cafwyd y dyfyniadau canlynol gan staff ar safle Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan am Wasanaethau Ystadau Arbenigol a'n gwasanaethau ar y diwrnod hwnnw:

"Maen nhw (Gwasanaethau Ystadau Arbenigol) yn gaffaeliad amhrisiadwy ac ardderchog, ac rydym yn eu hystyried fel estyniad i'n tîm."

"Maen nhw (Gwasanaethau Ystadau Arbenigol) bob amser yno i ddatrys unrhyw broblem y byddwch yn dod ar ei thraws. Ni allaf eu canmol yn ddigon uchel"

Dychwelodd yr asesydd i Dŷ'r Cwmnïau yn hwyr yn y bore a chyfarfu ag Anthony Pitcher, Uwch Ymgynghorydd Diogelwch Tân, Jessica Morgan, Swyddog Gwybodaeth a Paul Cottrell a Nicole Kruger, Syrfewyr Eiddo, i drafod teithiau cwsmeriaid a'n diwylliant sefydliadol. Cafodd proffesiynoldeb pob aelod o staff y cyfarfu Leon ag ef drwy gydol y dydd argraff fawr arno.

Wedi hynny, derbyniwyd yr adroddiad adolygu ac **ni chofnodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio**. Roeddem yn falch iawn o wybod bod tri maes o 'Compliance Plus' wedi'u nodi:

**1)** Mae cylchlythyrau gwych Gwasanaethau Ystadau Arbenigol yn dangos sut rydych yn sicrhau bod gwybodaeth am yr ystod lawn o wasanaethau yn hawdd iawn i gwsmeriaid ei darllen. Rydych hefyd yn darparu gwybodaeth mewn ffyrdd sy'n anelu at ddiwallu'r ystod eang o anghenion a dewisiadau.

**2)** Roedd casglu tystiolaeth gan amrywiaeth o staff a chwsmeriaid yn ystod yr asesiad yn atgyfnerthu'r farn bod safbwyntiau a sylw'r cwsmeriaid yn blaenoriaethu dull cyffredinol y gwasanaeth o weithredu.

**3)** Mae'n galonogol nodi sut mae'r gwasanaeth yn annog ac yn gwerthfawrogi cyfraniad staff at sicrhau darpariaeth sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid.

Rydym ni'n edrych ymlaen at yr adolygiad nesaf yn 2020!

Am ragor o wybodaeth am ein dull Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid, cysylltwch â:



**Suzanne Pullen** | Uwch-weinyddwr
Suzanne.Pullen@wales.nhs.uk | 02920 905382

# Y cyhoeddiadau technegol diweddaraf

**Nodiadau Adeilad Iechyd Cymru (WHBNs)**
Mae'r rhain yn gyfres o ddogfennau sy'n rhoi arweiniad ynghylch cynllunio a dylunio ystod o adeiladau iechyd sy'n darparu gwasanaethau arbenigol yng Nghymru.

***WHBN 15-01 Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys*** (Cyhoeddwyd 03/08/18)

Mae'r arweiniad hwn ar gyfer timau amlddisgyblaethol, gan gynnwys clinigwyr, timau dylunio, cynllunwyr ystadau a rheolwyr, sy'n gyfrifol am lunio cynlluniau strategol a gweithredol ar gyfer mannau adeiledig gwasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys.

***WHBN 00-08 Estatecode Wales Edition 2018*** (Cyhoeddwyd 30/05/18)

Mae'n cynnwys cyngor manwl ynghylch sut i fynd ati i reoli tir ac eiddo a ddefnyddir at ddibenion darparu gwasanaethau gofal iechyd. Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, dylai sefydliadau GIG Cymru allu dod o hyd i atebion effeithiol ac effeithlon trwy ddefnyddio adnoddau eiddo, a hynny er mwyn darparu gwell gofal iechyd a chymdeithasol, gwneud arbedion effeithlonrwydd a thorri costau.

***WHBN 03-02 Cyfleusterau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)*** (Cyhoeddwyd 23/03/18)

Mae'r arweiniad hwn yn cwmpasu dylunio llety gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 18 mlwydd oed. Mae'n darparu disgrifiadau llawn o'r ystafelloedd sy'n benodol i CAMHS ac nad ydynt yn gynwysedig mewn WHBNs a HBNs eraill.

**Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM)**
Mae'r rhain yn gyfres o ddogfennau sy'n rhoi arweiniad technegol ynghylch ystod eang o systemau arbenigol yn ystâd iechyd Cymru.

***WHTM 06-01 Cyflenwi a Darparu Gwasanaethau Trydanol, Argraffiad 2018*** (Cyhoeddwyd 15/10/18)

Mae'n hyrwyddo arferion da ar gyfer y rheiny sy'n gyfrifol am ddylunio, gosod, comisiynu, rhedega chynnal a chadw gwasanaethau trydanol mewn lleoliadau gofal iechyd.

***WHTM 01-01 Dadhalogi offer llawfeddygol (dyfeisiau meddygol) a ddefnyddir ar wardiau acíwt, Rhan D: Peiriannau dadhalogi*** (Cyhoeddwyd 04/10/18)

Mae'n cwmpasu safonau, cyngor technegol, gofynion gweithredol a phrofi protocolau dilysu wrth ddefnyddio peiriannau dadhalogi yn rhan o'r cylch dadhalogi mewn lleoliadau gofal acíwt.

***WHTM 01-01 Dadhalogi offer llawfeddygol (dyfeisiau meddygol) a ddefnyddir ar wardiau acíwt Rhan A: Rheolaeth a Darpariaeth*** (Cyhoeddwyd 11/07/18)

Rhoi cyngor ar y broses ddadhalogi gyfan wrth reoli a dadhalogi offer llawfeddygol.

***WHTM 05-01 Rheoli diogelwch tân ym maes gofal iechyd*** (Cyhoeddwyd 20/02/2019)

Mae'n gosod argymhellion a chanllawiau ar gyfer rheoli diogelwch tân mewn adeiladau gofal iechyd.

*Am ragor o wybodaeth am ein cyhoeddiadau technegol, cysylltwch â:*



**Jessica Morgan** | Swyddog Gwybodaeth
jessica.morgan2@wales.nhs.uk | 02920 904118

# Y Gornel Hanes: Ysbyty'r Eglwys Newydd, Caerdydd





Ar wahanol ffurfiau dros y blynyddoedd, mae Gwasanaethau Ystadau Arbenigol wedi bod â chysylltiad hirsefydlog â'r ystâd iechyd yng Nghymru. Mae'n anodd rhagweld dyfodol adeiladu ysbytai yng Nghymru, ond mae'r gorffennol yn fwy sicr. Ar ôl tyrchu drwy'r archifau, daethom o hyd i'r pytiau bach diddorol hyn. Gobeithio y byddant o ddiddordeb ichi.

Ni all llawer o ysbytai frolio o gael neuadd ddawns, ond gall Ysbyty'r Eglwys Newydd yng Nghaerdydd wneud hynny.

Yn ogystal â neuadd ddawns, roedd ganddo eglwys a chanddi 800 o seddi, bandstandiau a thai haf. Roedd yn ysbyty hunangynhaliol, am fod ganddo gigydd, becws, tir fferm y byddai cleifion yn ei drin fel rhyw fath o therapi, yn ogystal â thŵr dŵr 150 o droedfeddi y mae modd ei weld o hyd ar orwel Gogledd Caerdydd heddiw.

Y gost ar gyfer adeiladu'r ysbyty oedd £350,000, a fyddai'n cyfateb i oddeutu £37.5m erbyn hyn, a chymerodd 10 mlynedd i'w adeiladu. Adeiladwyd y prif ysbyty ar 5 erw o dir ac mae ganddo werth dwy filltir o goridorau i gyd.

Pan agorodd yr ysbyty ym 1908, fe'i hadnabuwyd fel ysbyty meddwl Caerdydd. Roedd yn gofalu am oddeutu 750 o gleifion a oedd â salwch cysylltiedig ag iechyd meddwl mewn dros 10 o wardiau – pump ar gyfer cleifion gwrywaidd a phump ar gyfer cleifion benywaidd.

Yn ystod y ddau Ryfel Byd, cafodd yr ysbyty ei gymryd drosodd a'i ddefnyddio i drin milwyr a oedd wedi'u hanafu. Roedd yn un o'r safleoedd cyntaf i weld siel-syfrdandod neu Anhwylder Straen Wedi Trawma.

Nid oedd Dr Edwin Goodall, yr arolygydd meddygol cyntaf yn yr ysbyty, eisiau i bobl alw'r safle yn wallgofdy. Roedd Dr Goodall yn enwog am ei ymchwil arloesol ym maes iechyd meddwl, a helpodd ei archwiliadau post-mortem o'r ymennydd i adnabod Clefyd Alzheimer hefyd.

Yn ystod yr 1980au, daeth gofal yn y gymuned yn boblogaidd ar gyfer trin cleifion a chanddynt broblemau iechyd meddwl a defnyddiwyd Ysbyty'r Eglwys Newydd yn llai aml.

Roedd yr holl gleifion bellach yn derbyn triniaeth ar y safle newydd yn Ysbyty Llandochau. Mewn cynhyrchiad gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn 2016, perfformiwyd Momentos of Leaving yn Ysbyty'r Eglwys Newydd fel ffordd o ffarwelio â'r adeilad am y tro olaf. Erbyn hyn, mae'n aros am gael ei ddadadeiladu.

Mae gennym lyfrgell luniau helaeth o ystadau ysbyty yng Nghymru a byddem yn croesawu unrhyw luniau a allai ehangu ein cofnodion. I gyflwyno lluniau, neu os hoffech i ni gynnwys eich ysbyty mewn rhifyn o'r cylchlythyr hwn yn y dyfodol, cysylltwch â:



**Jessica Morgan** | Swyddog Gwybodaeth
Jessica.Morgan2@wales.nhs.uk | 02920 904118

# Manylion Cyswllt Gwasanaethau Ystadau Arbenigol

Gall y rhai sy'n gweithio yn GIG Cymru ddefnyddio naill ai ein cyfeiriadur gwasanaethau neu rhestr o staff i ddod o hyd i'r person iawn i wneud y gwaith, a gall y rhai nad ydynt yn gweithio i GIG Cymru ddefnyddio'r rhestr o staff ar ein gwefan.

Gwasanaethau Ystadau Arbenigol
3ydd llawr, Tŷ'r Cwmnïau
Crown Way
Caerdydd
CF14 3UB

02920 904118

GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau Shared Services Partnership

Dyluniwyd a chynhyrchwyd gan Dîm Cyfathrebu
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru